

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 20/2020
DYDDIAD CYHOEDDI 26/03/2020

Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoduriaid

Crynodeb

1. Cyflwyniad

1.1 Ystyrir bod cyflogaeth yn rhan hanfodol o integreiddio i ffoduriaid. Mae'r astudiaeth hon yn ceisio deall uchelgeisiau cyflogaeth poblogaethau o ffoduriaid yng Nghymru, i nodi'r hyn y byddai'n ei gymryd i ffoduriaid gyflawni'r uchelgeisiau hyn, gan gynnwys y rhwystrau i'w cyflawni, ac i nodi sut y gallai cymorth i ffoduriaid gael ei ddatblygu er mwyn eu helpu i gyflawni'r nodau hyn.

2. Ymagwedd a dulliau ymchwil

2.1 Mae'r astudiaeth yn defnyddio tair ffynhonnell o ddata:

- adolygiad llenyddiaeth systematig, i nodi tystiolaeth ymchwil o, er enghraifft, ddyheadau ffoduriaid a'u profiadau o ddiweithdra/cyflogaeth a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, a thystiolaeth werthusol o effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau sy'n ceisio cynorthwyo ffoduriaid i ddod o hyd i waith;
- cyfweiliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid. Cyfwelwyd â 54 o randdeiliaid o lywodraeth ganolog, ranbarthol a lleol, y sector gwirfoddol, gwasanaethau cymorth cyflogaeth a chyffwrdd cyflogwyr, colegau a phrifysgolion, a chyfrannodd wyth ymchwilydd cymunedol ac 18 o randdeiliaid¹ o lywodraeth ganolog a lleol, y sector gwirfoddol, colegau a phrifysgolion i weithdai;
- cynhaliwyd arolwg o 257 o ffoduriaid² a 197 o geiswyr lloches gan dîm o ymchwilwyr cymunedol a Pobl a Gwaith. Cynhaliwyd yr arolwg drwy sampl nad oedd ar hap ac yn hynny

¹ Mae hyn yn cynnwys wyth rhanddeiliad y cyfwelwyd â hwy hefyd (h.y. a gafodd eu cynnwys yn y cyfanswm o 54 o randdeiliaid y cyfwelwyd â hwy)

² Yn yr astudiaeth hon defnyddir y term "ffoadur" i ddisgrifio'r rhai â dinasyddiaeth Brydeinig, a oedd wedi cael "caniatâd amhenodol i aros", "caniatâd yn ôl disgrisiwn i aros", "diogelwch dyngarol", neu unrhyw fath arall math o ganiatâd i aros.

o beth nid yw'r ymchwil yn gwneud unrhyw honiadau bod ei chanfyddiadau'n cynrychioli'r poblogaethau ehangach o ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

- 2.2 Caiff dull a methodoleg yr astudiaeth a rhagor o fanylion am y sampl a gyflawnwyd eu disgrifio yn adran 2.

3. Uchelgeisiau poblogaethau o ffoaduriaid a cheiswyr lloches

- 3.1 xxxxx Fel y mae'r adroddiad yn amlinellu yn adran 3, mae'r rhan fwyaf o ffoaduriaid a cheiswyr lloches am weithio ac maent am ddod o hyd i waith sy'n cyfateb i'w diddordebau, eu sgiliau a'u profiad. Roedd tua dwy ran o dair (63%) o'r rhai a holwyd a oedd wedi gweithio yn eu mamwlad, yn dymuno parhau yn yr un alwedigaeth neu broffesiwn a oedd ganddynt cyn ceisio lloches. Roedd uchelgeisiau fel arfer yn adlewyrchu rolau ar sail rhywedd yng ngwlad wreiddiol ffoaduriaid a cheiswyr lloches, er bod rhai menywod a holwyd wedi canfod rhyddid yn y DU i ystyried uchelgeisiau newydd. Mae amrywiaeth poblogaethau o ffoaduriaid (e.e. o ran galwedigaeth flaenorol) yn golygu bod eu huchelgeisiau yr un mor amrywiol.
- 3.2 Nid yw uchelgeisiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn sefydlog. Roedd tua 80% o'r rhai a holwyd yn fodlon ystyried dewisiadau eraill, ac mae ymchwil flaenorol wedi canfod bod dyheadau ffoaduriaid yn aml yn pylu dros amser, wrth i'w disgwyliad o gyrraedd neu wireddu eu huchelgeisiau ostwng.

4. Sgiliau a chymwysterau poblogaethau o ffoaduriaid a cheiswyr lloches

- 4.1 Mae amrywiaeth y poblogaethau o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn golygu bod eu sgiliau, gan gynnwys sgiliau iaith Saesneg, a'u cymwysterau, yr un mor amrywiol; er enghraifft, mae gan rai addysg prifysgol (27% o'r rhai a holwyd) a sgiliau iaith Saesneg cryf, ac mae eraill heb addysg ffurfiol neu ychydig o addysg ffurfiol (10% o'r rhai a holwyd) a sgiliau iaith Saesneg gwan. Mae gwahaniaethau hefyd ar gyfer gwahanol grwpiau; er enghraifft, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod lefelau addysg yn tueddu i fod yn is ymhlith ffoaduriaid sydd wedi'u hadsefydlu o dan yr SVPRS.
- 4.2 Mae cyfraddau cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant yn uchel ar gyfer Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill, ond yn is ar gyfer mathau eraill o ddarpariaeth ddysgu. Nododd tua dwy ran o dair (65%) o'r rhai a holwyd iddynt gymryd rhan mewn darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill (ESOL). Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd cyfraddau cyfranogi mewn mathau eraill o addysg a hyfforddiant yng Nghymru, fel coleg (20%), prifysgol (10%), darpariaeth gymunedol (10%) neu brofiad gwaith/lleoliadau gwaith, yn llawer is. Mae'r data a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu, yn rhannol, bod hyn yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae sgiliau iaith Saesneg gwael yn cyfyngu ar gyfranogiad mewn mathau eraill o addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, mae hefyd yn adlewyrchu rhwystrau eraill, fel pwysau ariannol ac anawsterau gyda chlodiant a gofal plant. Mae cyfraddau isel o ran cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant yn bryder, o ystyried bylchau sgiliau llawer o ffoaduriaid a cheiswyr lloches, fel bylchau yn eu "sgiliau cyflogadwyedd".
- 4.3 Roedd bwriadau i ddysgu yn y dyfodol ychydig yn wahanol i batrymau cyfranogiad presennol mewn dysgu, gyda thua 40% yn nodi eu bod yn bwriadu parhau ag ESOL a bron un rhan o dair yn mynegi dymuniad i fynd i'r brifysgol (31%) neu i'r coleg (28%) ar ôl iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Er bod y bwriad i ddatblygu sgiliau drwy'r coleg neu'r brifysgol yn y dyfodol yn uwch na'r cyfraddau cyfranogi presennol, cymysg oedd y farn ar werth a pherthnasedd dysgu ar gyfer cyflogaeth. Er bod bron dwy ran o dair o'r rhai a holwyd (64%) yn galw am ragor o ddarpariaeth hyfforddiant, a 42% yn galw am ragor o leoliadau gwaith i'w helpu i ddod o hyd i waith, dim ond tua hanner y rhai a holwyd a nododd y ffordd y gallai dysgu eu helpu i ddod o hyd i waith fel cymhelliant i gymryd rhan mewn dysgu, yn awr neu yn y dyfodol.

5. Profiadau cyflogaeth ffoaduriaid

5.1 Fel yr amlinellir yn adran 5, roedd 40% o'r rhai y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr arolwg hwn oedd â hawl i weithio, mewn gwaith. Mae astudiaethau eraill a adolygwyd ar gyfer yr ymchwil hon wedi nodi cyfraddau cyflogaeth rhwng 20-50%, gyda'r rhan fwyaf yn nodi cyfraddau o tua 30-35%. Ymddengys fod ffigur o tua 35-40% yn amcangyfrif rhesymol, er ei fod yn cuddio gwahaniaethau o ran cyfraddau cyflogaeth yn ôl:

- rhywedd oherwydd bod gan ddynion gyfraddau uwch o gyflogaeth na menywod;
- lefel sgiliau oherwydd bod y rhai â sgiliau uwch ac, yn enwedig, sgiliau iaith Saesneg, yn fwy tebygol o fod mewn gwaith; a
- hyd yr amser yn y DU, lle mae'r rhai sydd wedi bod yn y DU am gyfnod hwy yn fwy tebygol o fod mewn gwaith.

5.2 Mae'r prif gyfraddau cyflogaeth hefyd yn cuddio cyfraddau uchel o "waith gwael", gyda llawer yn gweithio islaw lefelau sgiliau, am gyflog isel mewn swyddi dros dro neu ansicr.

6. Rhwystrau i gyflogaeth

6.1 Mae lefelau isel o gyflogaeth, a chyfraddau uchel o waith gwael ymhlith y rhai sy'n gweithio, yn adlewyrchu'r amrywiaeth o rwystrau sy'n llesteirio neu'n atal ffoaduriaid rhag gwireddu eu dyheadau (ni all y rhan fwyaf o geiswyr lloches weithio'n gyfreithlon).

6.2 I'r rhai sydd â dyheadau uwch, mae camaliniad rhwng eu dyheadau a'u sgiliau a disgwyliadau cyflogwyr yn rhwystr allweddol; er enghraifft, mae'r rhai sy'n dyheu am barhau i weithio mewn swyddi proffesiynol fel arfer yn wynebu mwy o rwystrau i fynediad, fel disgwyliadau uwch ar ran cyflogwyr mewn perthynas â sgiliau iaith Saesneg a "chymhwysedd diwylliannol" (y gallu i ddeall, cyfathrebu â chyflogwyr a chydweithwyr yng Nghymru a rhyngweithio'n effeithiol â nhw). Mae hyn yn golygu bod llwybrau ffoaduriaid i gyflogaeth yn wahanol. I rai, mae dod o hyd i gyflogaeth yn golygu addasu eu dyheadau a derbyn gwaith gwael, lle mae disgwyliadau cyflogwyr yn is. I eraill mae'n golygu gohirio mynediad i gyflogaeth wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith a chyflogadwyedd, gan gynnwys eu cymhwysedd diwylliannol. Gellir hefyd alinio dyheadau, sgiliau a disgwyliadau cyflogwyr drwy weithio gyda chyflogwyr i newid eu disgwyliadau o gyflogeion.

6.3 Fodd bynnag, hyd yn oed lle mae dyheadau ffoaduriaid yn alinio â'u sgiliau a dyheadau cyflogwyr, a allai gynnwys gostwng dyheadau, fel yr oedd llawer o'r rhai a holwyd yn barod i'w wneud, mae amrywiaeth o rwystrau'n llesteirio neu'n atal ffoaduriaid rhag gwireddu eu dyheadau, sy'n cynnwys:

- rhwystrau sy'n gysylltiedig â mudo gorfodol, fel anawsterau o ran cael cydnabyddiaeth o gymwysterau, sgiliau a phrofiad a gafwyd dramor, amharodrwydd ymhlith rhai cyflogwyr i gyflogi ffoaduriaid, dealltwriaeth wan o lwybrau i gyflogaeth, iechyd meddwl gwael, a
- rhwystrau mwy generig sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau ffoaduriaid, megis anawsterau gyda chludiant a gofal plant, a gwendidau marchnadoedd llafur lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

7. Gwasanaethau cymorth

7.1 Fel y mae adrannau 7 ac 8 yn dangos, er gwaethaf ymroddiad staff, mae gwasanaethau cymorth a darpariaeth ESOL yn cael trafferth helpu pobl i oresgyn llawer o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Yn wir, roedd y rhan fwyaf o'r ffoaduriaid mewn gwaith yn priodoli eu llwyddiant i'w hymdrechion eu hunain, yn hytrach na chymorth gan wasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- y cyfyngiadau cyfreithiol ar geiswyr lloches sy'n gweithio yn y DU;

- darpariaeth ESOL annigonol mewn sawl rhan o Gymru a'r anawsterau sy'n gynhenid mewn dysgu ail iaith;
- yr amser a'r cymorth cyfyngedig y gall y Ganolfan Byd Gwaith eu cynnig a'r ffyrdd y gall sgiliau iaith Saesneg gwan gyfyngu ar y cymorth a'r cyfleoedd eraill y gall ceiswyr lloches a ffoaduriaid gael mynediad iddynt; er enghraifft, yn gyffredinol ni allant gael mynediad i wasanaethau cymorth cyflogaeth wedi'u targedu fel Cymunedau am Waith³, neu leoliadau gwaith, hyd nes iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith;
- toriadau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth.

8. Effaith diweithdra a gwaith gwael

8.1 Fel y mae adran 10 yn dangos, mae diweithdra a gwaith gwael yn cyfrannu at lefelau uchel o dlodi ac allgáu cymdeithasol a lefelau llawer gwaeth o lesiant ymhlith ffoaduriaid ac, yn arbennig, ymhlith ceiswyr lloches, o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Pan ofynnwyd iddynt pa mor hapus yr oeddent ddoe ar raddfa o 0-10, y sgoriau cymedrig ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches oedd 6.9, a 4.6 yn y drefn honno, o gymharu â'r cymedr ar gyfer poblogaeth Cymru, sef 7.7.

9. Argymhellion ar gyfer gwella cymorth

9.1 Fel yr amlinellir yn adran 11, nid oes "bwled arian" (neu ateb syml, unigol). Dylai strategaeth effeithiol ganolbwyntio ar ymestyn hawliau ac alinio dyheadau a sgiliau â disgwyliaid cyflogwyr, a mynd i'r afael â rhwystrau eraill i waith a chynnydd mewn gwaith. Mae hynny'n gofyn am weithredu cydlynus ar draws amrywiaeth o feysydd polisi er mwyn cryfhau:

- Integreiddio;
- ESOL a hyfforddiant, i ddatblygu sgiliau;
- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth cyflogaeth i, er enghraifft, lywio dyheadau a strategaethau chwilio am swyddi;
- ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn, er enghraifft, newid disgwyliaid ac arfer cyflogwyr.

9.2 Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cael gwelliannau o ran gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau a monitro polisiâu a darpariaeth i gynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

9.3 Mewn ymateb, mae adran 11 yn amlinellu pum argymhelliad cyffredinol yr astudiaeth:

9.4 **Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru weithio i gynorthwyo integreiddio o'r cychwyn cyntaf, fel y mae Llywodraeth yr Alban wedi'i wneud.** Dylai hyn helpu i leihau'r 'amser coll' pan fydd effaith negyddol ar sgiliau a llesiant, gwella dealltwriaeth y cyhoedd a'u canfyddiad o ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a gwella llesiant ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Dylai camau gweithredu i gefnogi hyn gynnwys Llywodraeth Cymru yn:

- Lobïo Llywodraeth y DU i adfer hawliau ceiswyr lloches i weithio⁴;

³ Mae Cymunedau am Waith yn un o raglenni Llywodraeth Cymru sy'n cael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE), sy'n cynnig gwasanaethau cymorth cyflogaeth mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol-economaidd (Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf) i: bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac oedolion 25 oed a hŷn sydd naill ai'n economaidd anweithgar neu sydd wedi bod yn ddi-waith am dros 12 mis. Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn ymestyn y cymorth hwn i wella sgiliau cyflogadwyedd i'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhaglenni Cymunedau am Waith neu raglenni eraill a gyllidir gan CGE, fel PaCE (y prosiect Cyflogaeth Rhieni a Gofal Plant).

⁴ Mae polisi lloches wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y DU, sy'n rheoli'r gwaith o asesu ceisiadau am loches a hefyd llety a chymorth ariannol i geiswyr lloches.

- Ystyried yr achos dros ddatblygu rhaglenni strwythuredig byr i gynorthwyo integreiddio, fel y rhai a ddatblygwyd mewn gwledydd eraill yn yr UE;
- sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o adnoddau i fynd i'r afael â rhwystrau iaith. Mae defnydd Busnes Cymru o'i Gronfa Gyfranogi yn enghraifft dda o hyn;
- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gan staff rheng flaen ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel rhan o ddatblygu'r gweithlu;
- gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru i drafod cyfleoedd ar gyfer allgymorth ac ymgysylltu â ffoaduriaid a cheiswyr lloches; a
- mynd ati i nodi cyfleoedd i amlygu cyfraniad ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel digwyddiadau i nodi Diwrnod Ffoaduriaid y Byd a chefnogi grwpiau noddi ffoaduriaid lleol.

9.5 **Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau darpariaeth addysg a hyfforddiant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.** Dylai hyn gynorthwyo integreiddio a helpu ffoaduriaid i ddod o hyd i waith gwell, yn gyflymach. Dylai camau gweithredu i gefnogi hyn gynnwys Llywodraeth Cymru yn:

- cynyddu buddsoddiad mewn darpariaeth ESOL a gweithio gydag awdurdodau lleol, colegau, cyflogwyr a darparwyr ESOL i ymestyn a phrif ffrydio'r arfer da a nodwyd yn y Datganiad Polisi ESOL presennol;
- gweithio gyda cholegau i drafod cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant mewn cymwysterau sylfaenol fel hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch yn ieithoedd allweddol y byd, fel Arabeg, i'r rheini â sgiliau iaith Saesneg gwannach; a
- gweithio gyda cholegau a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i drafod datblygu llwybrau hyfforddi i sectorau twf fel gofal cymdeithasol ar gyfer y rhai â sgiliau iaith Saesneg cryfach.

9.6 **Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau gwasanaethau cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.** Ceir amrywiaeth o wasanaethau cymorth fel y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a rhaglen cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn sensitif i anghenion ffoaduriaid fel bod ffoaduriaid yn cael eu cyfeirio i'r cymorth sydd fwyaf perthnasol i'w hanghenion. Dylai camau gweithredu i gefnogi hyn gynnwys Llywodraeth Cymru yn:

- **gweithio gyda gwasanaethau i gryfhau cydweithio, er enghraifft, er mwyn gallu rhannu gwybodaeth ac arbenigedd;**
- **gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod ei 'chynnig' cymorth yn diwallu anghenion ffoaduriaid. Dylai hyn gynnwys sicrhau'r defnydd sensitif a deallus o ymrwymadau hawl wyr; bod defnydd llawn yn cael ei wneud o sgiliau ac arbenigedd staff y Ganolfan Byd Gwaith, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu arbenigedd yn swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith; a**
- **Sicrhau bod anghenion ffoaduriaid yn cael eu prif ffrydio i ddyluniad a gweithrediadau rhaglen cyflogadwyedd yn y dyfodol a Chymunedau am Waith, a lle y bo'n briodol, bod ffoaduriaid yn cael eu trin fel grŵp blaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau.**

9.7 **Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru wella ymgysylltiad cyflogwyr â ffoaduriaid.** Mae'n hanfodol bod cyflogwyr yn deall hawliau ffoaduriaid i weithio, yn helpu i gynorthwyo ac annog cyflogaeth ffoaduriaid a'u cynnydd mewn gwaith. Dylai camau gweithredu i gefnogi hyn gynnwys Llywodraeth Cymru yn:

- gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gryfhau rôl cynghorwyr cyflogaeth y Ganolfan Byd Gwaith;
- annog cyrrff cyhoeddus i gefnogi a hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a lleoliadau gwaith i ffoaduriaid; a

- sicrhau bod camau gweithredu o dan y Cynllun Cyflogadwyedd i danlinellu cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, cefnogi eu staff a darparu gwaith teg, yn gynnwys ffocws ar ffoaduriaid.

9.8 Argymhelliad 5: Gwella data, tystiolaeth a llywodraethu. Mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol yn wan, ni wyddys digon am brofiadau cyflogaeth ffoaduriaid ac mae'r cyfrifoldeb am weithredu yn bodoli ar draws sawl adran. Dylai camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn gynnwys Llywodraeth Cymru yn:

- Sicrhau bod gwerthusiadau o raglenni allweddol yn ystyried cymorth i ffoaduriaid a, lle y bo'n berthnasol, i geiswyr lloches;
- gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i drafod cyfleoedd i ddefnyddio system marchnad lafur y Ganolfan Byd Gwaith i ddarparu gwell data ar brofiad ffoaduriaid;
- ystyried comisiynu rhagor o ymchwil i drafod cynnydd ffoaduriaid mewn cyflogaeth
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r bwrdd gweithrediadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches;
- trafod dichonoldeb sefydlu grŵp llywio arbenigwyr drwy brofiad.

Awduron yr Adroddiad:



Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Holtom, D; Iqbal, H; 2020. Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 20/2020

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/astudiaeth-o-gymorth-cyflogaeth-sgiliau-i-ffoaduriaid>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tom Cartwright
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: tom.cartwright@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80038-399-9